Partneriaeth Sgiliau Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Skills Partnership

# Haf Cylchlythyr





## Croeso

Croeso i rifyn Haf 2025 o gylchlythyr Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC).

Wrth i ni fyfyrio ar y misoedd diwethaf, mae'n amlwg bod cydweithredu ac arloesedd yn parhau i hybu cynnydd ar draws ein rhanbarth. O lwyddiant ein Cynhadledd Rhanddeiliaid Cyflogaeth a Sgiliau yn ICC Cymru i safbwyntiau ysbrydoledig pobl ifanc a glywyd ar ein Sioeau Teithiol Llais Ieuenctid, mae'r rhifyn hwn yn tynnu sylw at gryfder ein partneriaethau a'r uchelgais a rennir i adeiladu system sgiliau fwy cynhwysol, ymatebol, a pharod ar gyfer y dyfodol.

Rydym wedi gweld â'n llygaid ein hunain sut mae prentisiaethau creadigol yn agor drysau i dalent newydd, ac rydym yn falch o ddathlu cyflawniadau unigolion fel Morgan Powell, y mae ei thaith i'r diwydiant sgrin yn brawf o bŵer cyfleoedd a chefnogaeth.

Rydym hefyd yn cymryd eiliad i gydnabod cyfraniad eithriadol Allison Dowzell, a enillodd OBE yn ddiweddar am ei harweinyddiaeth yn y sector creadigol.

Mae'r rhifyn hwn hefyd yn dod â'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar y Rhaglen Sgiliau Hyblyg sydd wedi cael ei hadnewyddu, ac sy'n parhau i gynnig cefnogaeth hanfodol i gyflogwyr sy'n buddsoddi yn eu gweithlu, ac yn edrych yn ôl ar ddigwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar gymorth cyflogadwyedd—lle helpodd eich lleisiau chi i lunio darpariaeth y dyfodol.

Fel bob amser, hoffwn ddiolch i aelodau'n Bwrdd, grwpiau clwstwr a rhanddeiliaid am eu hymrwymiad parhaus i agenda sgiliau'r rhanbarth. Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen y rhifyn hwn ac yn teimlo'r un mor frwdfrydig ag yr ydym ni am y gwaith sydd o'n blaenau.

Dymunwn haf cynhyrchiol a chadarnhaol i chi i gyd.

**Leigh Hughes**

**Cadeirydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau PSPRC**

# Cydweithio a sgiliau wrth wraidd Cynhadledd Rhanddeiliaid PSPRC

Ar 15 Mai 2025, cynhaliodd Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC) ei Chynhadledd Rhanddeiliaid Cyflogaeth a Sgiliau yn ICC Cymru. Daeth y digwyddiad â gweithwyr proffesiynol o bob cwr o dde-ddwyrain Cymru ynghyd i archwilio dyfodol sgiliau, cyflogadwyedd a chydweithio yn y rhanbarth.

Cynhaliwyd y gynhadledd yn y lleoliad uchel ei barch hwn, a chafodd dderbyniad da am ei threfniadaeth esmwyth, ei hagenda ddiddorol, a'i chyfleoedd gwerthfawr i rwydweithio.

Roedd y mynychwyr yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, darparwyr addysg, cyflogwyr, a phartneriaid rhanbarthol, i gyd yn cyfrannu at weledigaeth gyffredin ar gyfer system sgiliau fwy cynhwysol ac ymatebol.

### *Rhaglen ddeinamig a threiddgar*

Dechreuodd y diwrnod gyda chroeso gan Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd, y cynghorydd Dimitri Batrouni. Ar ôl hyn cafwyd cyfraniadau allweddol gan Neil Surman a Simon Pirotte o Lywodraeth Cymru, a siaradodd am bwysigrwydd adeiladu system sgiliau gynhwysol. Roedd sesiwn nodedig ar y dirwedd sgiliau dan arweiniad cyflogwyr yn cynnwys mewnwelediadau gan P-RC, FSB, a DEXECM – gan dynnu sylw at werth ymgysylltiad cyflogwyr a chydweithio rhanbarthol.

Roedd gweithdai trwy gydol y dydd yn canolbwyntio ar gymwysterau galwedigaethol, Sero Net, a phrentisiaethau sy'n cynnig trafodaethau ymarferol ac enghreifftiau go iawn o arloesedd ar waith. Daeth y prynhawn i ben gyda chyflwyniad o Gynllun a Datrysiadau Cyflenwi Sgiliau PSPRC, dan arweiniad Leigh Hughes a phartneriaid.

### *Adborth cadarnhaol a themâu allweddol*

Cafodd y sesiynau ar y dirwedd sgiliau dan arweiniad cyflogwyr a datrysiadau cyflenwi sgiliau dderbyniad arbennig o dda, gyda'r mynychwyr hefyd yn gwerthfawrogi'r drafodaeth gynhwysol ar y system sgiliau a'r gweithdai yn y bore.

Cynhyrchodd y gweithdy prynhawn fewnwelediadau defnyddiol, gan ennyn diddordeb pellach mewn deialog a chydweithredu parhaus.

Tynnodd cyfranogwyr sylw at sawl thema allweddol:

- Pwysigrwydd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth.
- Gwerth cyfathrebu clir a nodau a rennir.
- Cyfleoedd i wella ymwybyddiaeth cyflogwyr o gyllid a chefnogaeth.
- Ffocws cynyddol ar ddeallusrwydd artiffisial, sgiliau digidol a sero net fel blaenoriaethau yn y dyfodol.

### *Edrych tua'r dyfodol*

Roedd adborth o'r diwrnod yn adlewyrchu awydd cryf i barhau i ymgysylltu.

Mynegodd mynychwyr ddiddordeb mewn sesiynau mwy rhyngweithiol, cynrychiolaeth ehangach gan fusnesau bach a chanolig a'r sector gwirfoddol, a ffocws parhaus ar astudiaethau achos o'r byd go iawn a mewnwelediadau gan gyflogwyr.

Daeth y gynhadledd i ben gydag ymdeimlad clir o fomentwm ac ymrwymiad a rennir i gryfhau partneriaethau a sicrhau bod agenda sgiliau'r rhanbarth yn parhau i fod yn gynhwysol, yn ystwyth ac i gyd-fynd ag anghenion dysgwyr a chyflogwyr.






# Sioeau Teithiol Llais Ieuenctid: gwrando ar weithlu'r dyfodol

Yr haf hwn, cychwynnodd Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfres o sioeau teithiol Llais Ieuenctid, gan ymgysylltu â dros 90 o bobl ifanc ar draws pedwar coleg – Coleg Merthyr, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg y Cymoedd, a Choleg Penybont.

Roedd y sesiynau hyn yn gyfle gwerthfawr i glywed yn uniongyrchol oddi wrth fyfyrwyr am eu huchelgeisiau o ran eu gyrfaoedd, yr heriau y maent yn eu hwynebu, a'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu yn y byd gwaith.

Mae'r adborth, a gasglwyd trwy arolygon Mentimeter rhyngweithiol, yn paentio darlun lliwgar o genhedlaeth sy'n uchelgeisiol, yn feddylgar ac yn awyddus i gyfrannu.

O ddarpar drydanwyr a chogyddion i bobl greadigol, entrepreneuriaid a gweision cyhoeddus y dyfodol, mae pobl ifanc ledled y rhanbarth yn glir ynglŷn â'r hyn maen nhw ei eisiau a'r hyn sydd ei angen arnynt.

### *Uchelgeisiau a dyheadau*

Mynegodd myfyrwyr ystod eang o yrfaoedd o ddiddordeb, gyda chynrychiolaeth gref yn y diwydiannau creadigol, adeiladwaith a chrefftau, lletygarwch ac arlwyo, iechyd a gofal cymdeithasol, a llwybrau llawrydd neu entrepreneuraidd.

Ymhlith y sectorau mwyaf poblogaidd roedd y diwydiannau creadigol, adeiladwaith, digidol a thechnoleg, lletygarwch a thwristiaeth, a chyllid a busnes.

### *Sgiliau sy'n bwysig*

Pan ofynnwyd iddynt am y sgiliau pwysicaf i'w dyfodol, tynnodd pobl ifanc sylw'n gyson at gyfathrebu, hyder, gwaith tîm, datrys problemau, gwytnwch a chreadigrwydd.

Mae'r ymatebion hyn yn adlewyrchu pwyslais cryf ar alluoedd rhyngbersonol ac ymarferol – sgiliau sy'n hanfodol yn y farchnad swyddi datblygol heddiw.

### *Rhwystrau a heriau*

Er eu brwdfrydedd, nododd llawer o fyfyrwyr rwystrau sylweddol i ddilyniant. Ymhlith y rhai mwyaf cyffredin roedd diffyg profiad, cyfyngiadau ariannol, cyfleoedd cyfyngedig am swyddi, costau trafnidiaeth, a diffyg mynediad at gyfleoedd hyfforddiant neu rwydweithio.

Mae'r heriau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cymorth targedig a llwybrau cynhwysol i gyflogaeth.

### *Cymorth a dewisiadau dysgu*

Mynegodd pobl ifanc ffafriaeth glir ar gyfer dysgu trwy brofiad.

Ystyriwyd lleoliadau gwaith, interniaethau a gweithdai ymarferol fel y ffyrdd mwyaf gwerthfawr o baratoi. Soniwyd yn aml hefyd am fentora, hyfforddiant gyrfa, a mynediad at weithwyr proffesiynol o'r diwydiant fel galluogwyr allweddol ar gyfer llwyddiant.

### *Dylanwadau a disgwyliadau*

Nodwyd mai cyflog, boddhad yn y swydd, lleoliad, hyblygrwydd, a gwerthoedd y cwmni yw'r ffactorau pwysicaf sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch gyrfaoedd. Er bod llawer o fyfyrwyr yn teimlo'n "weddol hyderus" am y sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt, dim ond tua hanner sy'n teimlo'n gwbl "barod i weithio." Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen am arweiniad a chefnogaeth gynharach, wedi'u teilwra'n fwy.


### *Sgiliau digidol a phrentisiaethau*

Roedd safbwyntiau ar sgiliau digidol yn gymysg. Er bod llawer yn eu hystyried yn hanfodol, roedd eraill – yn enwedig y rhai sy'n dilyn gyrfaoedd creadigol neu ymarferol – yn credu eu bod yn llai pwysig.

Mae prentisiaethau yn parhau i fod yn llwybr poblogaidd, ond galwodd myfyrwyr am gyflogau gwell, mwy o weledededd, a chyfleoedd mwy hyblyg a pharchus.

### *Yr hyn y mae pobl ifanc ei eisiau*

Yn anad dim, mae pobl ifanc eisiau cael eu trin â pharch, cael cyfleoedd teg, a chael eu cefnogi i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau. Maent yn gofyn am lwybrau clir i mewn i waith, amgylcheddau cynhwysol, a system sy'n cydnabod eu potensial – beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.



RegionalSkillsPartnership@newport.gov.uk @CCR_RSP ccrsp.co.uk

# Sbotolau ar brentisiaeth greadigol: Taith Morgan Powell o'r ystafell ddosbarth i'r set

Mae'r diwydiannau creadigol yn ffynnu yn ne-ddwyrain Cymru, a diolch i fentrau fel Rhaglen Brentisiaethau CRIW, mae mwy o bobl ifanc yn dod o hyd i'w ffordd i yrfaoedd cyffrous ym maes ffilm a theledu.

Un stori lwyddiant o'r fath yw Morgan Powell, prentis yn yr adran gelf gyda Sgil Cymru yn 2024–25. Mae ei thaith yn enghraifft o bŵer cyfleoedd, cefnogaeth a phenderfyniad.

Cyn ymuno â'r brentisiaeth, roedd Morgan yn gweithio mewn ysgol uwchradd yng Nghaerdydd yn cefnogi disgyblion ADY gyda'u TGAU Celf. Gyda chefndir mewn celfyddydau therapiwtig a hwyluso, roedd hi wedi bod â diddordeb ym myd teledu a ffilm ers amser maith ond, fel llawer o bobl, nid oedd yn siŵr sut i dorri i mewn i'r diwydiant.

Dywedodd Morgan: "Bu bron i mi beidio â gwneud cais. Roedd gadael swydd llawn amser yn fy 20au hwyr i fod yn brentis yn frawychus. Ond rhoddodd strwythur y rhaglen CRIW yr hyder i mi gymryd y naid – tra bod dysgu wedi ei wneud yn bosibl."





Yn ystod ei chyfnod gyda Sgil Cymru, enillodd Morgan brofiad ymarferol mewn dau gynhyrchiad mawr.

Roedd ei lleoliad cyntaf ar ail gyfres The Change, lle gweithiodd hi fel hyfforddai yn yr adran gelf. O adeiladu propiau a helpu i addurno'r set i reoli arian mân a gweithio ar set, yn fuan iawn roedd Morgan yn aelod dibynadwy o'r tîm.

Cynigiodd ei hail leoliad, Under Salt Marsh ar gyfer Sky, gyflymder a graddfa wahanol. Roedd yn arafach i ddechrau, ond yn fuan iawn fe roddodd y cynhyrchiad gyfle i Morgan ddisgleirio – yn enwedig pan ddechreuodd gefnogi'r tîm graffeg. Ar ôl dysgu Adobe Illustrator i'w hun, fe gymerodd hi gyfrifoldeb am elfennau gweledol allweddol, gan arddangos menter a'r gallu i addasu.

**Adeiladu gyrfa**

Ers cwblhau ei phrentisiaeth, mae Morgan wedi parhau i ffynnu. Mae hi wedi gweithio ar Falling gyda Forge Entertainment ac mae hi bellach yn paratoi i ymuno â Dead Point fel cydlynydd arian mân – gan aduno â chydweithwyr o'i lleoliadau cynharach.

Dywed Morgan: "Mae'r rhwydwaith a adeiladais yn ystod fy mhrentisiaeth wedi agor cymaint o ddrysau, rydw i bellach yn gweithio fel gweithiwr llawrydd ar gynyrchiadau na allwn ond breuddwydio amdanynt flwyddyn yn ôl."

**Cyngor i brentisiaid y dyfodol**

Mae cyngor Morgan i eraill sy'n ystyried prentisiaeth CRIW yn syml: "Byddwch yn bresennol, byddwch yn ddefnyddiol, a gwrandewch. Defnyddiwch eich sgiliau, lleisiwch eich barn pan fo hynny'n briodol, a chefnogwch eich tîm bob amser – hyd yn oed os yw hynny'n golygu gwneud paned o de yn unig."

Mae stori Morgan yn atgof pwerus o sut y gall prentisiaethau creadigol ddatgloi potensial, magu hyder, a lansio gyrfaoedd yn un o sectorau mwyaf deinamig Cymru.

*"Pan alwyd 'wrap' ar ail gyfres The Change, roeddwn i'n llawn balchder. Roeddwn i wedi helpu i greu rhywbeth gwych ac wedi gweithio gyda thîm medrus a oedd wedi fy nghefnogi bob cam o'r ffordd."*

***Morgan Powell, Prentis Adran Gelf CRIW 2024–25***

**Darllenwch astudiaeth achos lawn Morgan**

# Dathlu anrhydedd haeddiannol: Allison Dowzell yn derbyn OBE

Dim ond un enghraifft o'r dalent anhygoel sy'n dod i'r amlwg o ddiwydiannau creadigol Cymru yw taith Morgan—talent sy'n cael ei meithrin trwy bartneriaethau cryf, hyfforddiant ymarferol ac arweinyddiaeth weledigaethol.

Wrth wraidd y sector ffyniannus hwn mae unigolion fel Allison Dowzell, y mae eu hymroddiad a'u dylanwad yn parhau i lunio cyfleoedd i'r genhedlaeth nesaf.

Rydym yn falch iawn o rannu bod Allison Dowzell – aelod o Fwrdd PSPRC a Chadeirydd ein Grŵp Clwstwr Creadigol – wedi derbyn OBE fel rhan o Anrhydeddau Pen-blwydd Ei Fawrhydi'r Brenin.

Mae'r gydnabyddiaeth fawreddog hon yn adlewyrchu degawdau o ymroddiad gan Allison i ddiwydiant ffilm a theledu Cymru. Mae ei hymrwymiad diwyro i gael gwared ar rwystrau, hyrwyddo talent eginol, a chreu cyfleoedd i bobl ifanc wedi helpu i lunio sector ffilm a theledu mwy cynhwysol a deinamig.

Fel rheolwr gyfarwyddwr Cynghrair Sgrin Cymru, mae Allison wedi chwarae rhan ganolog wrth adeiladu etifeddiaeth o sgiliau, hyfforddiant a chydweithredu sy'n parhau i fod o fudd i'r ecosystem greadigol gyfan.

Mae'r anrhydedd hon yn haeddiannol iawn, ac rydym wrth ein bodd o weld ei harweinyddiaeth a'i dylanwad yn cael eu cydnabod ar y lefel uchaf.

Llongyfarchiadau, Allison – a diolch am eich ysbrydoliaeth a'ch cyfraniad parhaus i ddyfodol creadigol y rhanbarth.



# Cyllid sgiliau hyblyg: cefnogi cyflogwyr Cymru i uwchsgilio at y dyfodol

Wrth i ddiwydiannau ledled Cymru barhau i esblygu, nid yw'r angen am weithlu medrus ac addasadwy erioed wedi bod yn bwysicach. Dyna pam mae **Rhaglen Sgiliau Hyblyg (RhSH)** Llywodraeth Cymru yn gyfle hanfodol i gyflogwyr sydd am fuddsoddi yn eu pobl a diogelu eu busnes at y dyfodol.

Mae'r RhSH yn cynnig **hyd at 50 y cant o'r cyllid** tuag at gostau hyfforddi achrededig cymwys (hyd at uchafswm o **£50,000 fesul cais**) i gefnogi uwchsgilio ac ailsgilio gweithwyr ar draws pob sector yng Nghymru.

**Beth sy'n newydd?**

Mae'r rhaglen wedi cael ei hadnewyddu ar gyfer 2025 gyda ffocws mwy penodol ar sectorau blaenoriaeth a phroses ymgeisio symlach.

Gall cyflogwyr nawr elwa o'r canlynol:

- **Camau ymgeisio symlach** gyda chefnogaeth gan reolwyr perthynas Busnes Cymru.
- **Gwneud penderfyniadau'n gyflymach**, o fewn 10 diwrnod gwaith fel arfer.
- **Opsiynau hyfforddi hyblyg**, gan gynnwys sgiliau arweinyddiaeth, digidol, creadigol a thechnegol.

**Pwy sy'n gallu gwneud cais?**

Mae'r rhaglen ar gael i **gyflogwyr yng Nghymru** o unrhyw ddiwydiant, gan gynnwys sefydliadau preifat a'r trydydd sector.

I fod yn gymwys, rhaid i fusnesau:

- Fod yn solfent yn ariannol.
- Ymrwymo i gwblhau hyfforddiant erbyn **31 Mawrth 2026**.
- Defnyddio darparwyr hyfforddiant trydydd parti sy'n cynnig cyrsiau achrededig neu gyrsiau a gydnabyddir gan y diwydiant.

**Sectorau a dargedir**

Cynlluniwyd RhSH i fynd i'r afael â bylchau sgiliau mewn meysydd allweddol o economi Cymru, gan gynnwys:

- Digidol uwch
- Diwydiannau creadigol
- Peirianneg a gweithgynhyrchu
- Sero net
- Arwain a rheoli
- Allforio
- Coedwigaeth a'r gadwyn gyflenwi pren
- Twristiaeth a lletygarwch

**Pa hyfforddiant sy'n cael ei gefnogi?**

Mae hyfforddiant cymwys yn cynnwys:

- Sgiliau technegol (e.e. roboteg, CAD/CAM, deallusrwydd artiffisial, awtomeiddio).
- Arweinyddiaeth a rheolaeth (e.e. cymwysterau'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth/Sefydliad Rheolaeth Siartredig, cyfathrebu, gwytnwch).
- Uwchsgilio sy'n benodol i'r diwydiant ac sy'n cyd-fynd ag anghenion y busnes.

Rhaid i'r hyfforddiant gael ei ddarparu gan ddarparwr trydydd parti a'i gwblhau o fewn y flwyddyn ariannol.

Nid yw hyfforddiant a chynadleddau statudol yn gymwys.

**Sut i wneud cais**

1. Cyflwyno datganiad o ddiddordeb drwy wefan Busnes Cymru
2. Gwiriad cymhwystra gan Lywodraeth Cymru
3. Cais llawn os ceir gwahoddiad
4. Cymeradwyaeth a llythyr dyfarnu'r grant
5. Hyfforddiant a chyflwyno hawliadau ar ôl ei gwblhau

## Effaith go iawn: yr hyn y mae cyflogwyr yn ei ddweud

"Mae'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg wedi bod yn hollbwysig i'n galluogi i symud ymlaen gydag amrywiaeth eang o wahanol raglenni yn Ogi. Ni allwn ei argymell ddigon."

***Louise Mumford, Rheolwr Dysgu a Datblygu, Ogi***

"Mae wedi bod yn allweddol wrth helpu IQ Endoscopes i lenwi bylchau sgiliau critigol yn ein busnes. Mae wedi galluogi ein tîm i dyfu ac addasu'n gyflym."

***Gemma Banks, Rheolwr Adnoddau Dynol, IQ Endoscopes***

Os yw'ch sefydliad yn cynllunio hyfforddiant yn ystod y 12–18 mis nesaf, nawr yw'r amser i ystyried sut gall y Rhaglen Sgiliau Hyblyg gefnogi eich amcanion.

Chwiliwch am y *"rhaglen sgiliau hyblyg"* ar wefan Busnes Cymru i gychwyn arni.

# Llunio dyfodol cymorth cyflogadwyedd yng Nghymru

Yn gynharach eleni, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad cynhwysfawr o'i rhaglenni cyflogadwyedd, gan wahodd gweithwyr proffesiynol rheng flaen a darparwyr gwasanaethau i helpu i lunio dyfodol cymorth yng Nghymru.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol ledled Cymru rhwng Ebrill a Mehefin 2025. Casglodd y sesiynau hyn fewnwelediadau, profiadau a syniadau gwerthfawr gan y rheiny sy'n darparu cymorth cyflogadwyedd bob dydd – gan helpu i lywio dyluniad rhaglen fwy cynhwysol, integredig ac effeithiol yn y dyfodol.

**Pam ei fod yn bwysig**

Wrth weithwyr proffesiynol weithio'n uniongyrchol gydag unigolion a oedd yn chwilio am waith, daeth safbwyntiau unigryw i'r amlwg. Rhoddodd y digwyddiadau hyn gyfle i:

- rannu'r hyn oedd wedi gweithio'n dda yn y rhaglenni cyfredol
- nodi meysydd i'w gwella
- archwilio sut y gellid integreiddio gwasanaethau'n well
- tynnu sylw at yr hyn sydd ei angen ar gleientiaid i lwyddo

Cynhaliwyd digwyddiadau yng Nghaerdydd (29 Ebrill), Abergele (8 Mai), Llandrindod (22 Mai) a Llanelli (4 Mehefin), ac roedd pob sesiwn yn cynnwys trafodaethau rhyngweithiol a chyfleoedd i rwydweithio. Rhoddodd hefyd lwyfan i ddarparwyr ddylanwadu ar ddyfodol cymorth cyflogadwyedd yng Nghymru.

**Beth nesaf?**

Mae'r adborth a gasglwyd o'r digwyddiadau hyn bellach yn cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru i helpu i lunio cam nesaf cymorth cyflogadwyedd. Bydd lleisiau'r rhai a gymerodd ran yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod y ddarpariaeth yn y dyfodol yn ymatebol, yn gynhwysol ac yn effeithiol.